**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Cyngor Cymuned Nos Fercher, Mai 20fed 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Gwyn Williams, Ifor Edwards, Cyng D O Roberts
Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Gwydion Jones, Gerwyn Davies, Ian W Griffith a'r Clerc.

39.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda. Cyrhaeddodd Gwydion Jones y cyfarfod ychydig funudau ar ôl dechrau ond nid oedd ganddo gysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

39.2 CYDYMDEIMLO – mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor â'r Clerc a'r teulu yn dilyn eu profedigaeth o golli ei mam-yng-nghyfraith.

39.3 COFNODION – aethpwyd drwy gofnodion cyfarfod 22 Ebrill 2015. Mynegodd Diane Roberts ei bod wedi gofyn i'w henw gael ei nodi bob tro bydd yn pleidleisio a nodwyd bod camgymeriad teipio yn rhif 38.9 i fod i ddarllen 'sied'. Wedi newid hyn cynigiodd Emlyn Williams, eiliodd Ann Vaughan a phleidleisiwyd yn unfrydol bod y cofnodion yn gywir.

39.4 MATERION YN CODI O'R COFNODION
39.4.1 BLODAU – mae'r Clwb Garddio wrthi'n plannu'r tybiau ac yn llenwi ffurflen gais Cronfa Bro Cernyw. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD yn unfrydol i beidio llenwi'r basgedi blodau yn y pentrefi eleni. Cafwyd ebost gan Adran Amgylcheddol Cyngor Sirol Conwy yn dweud eu bod hwy am lenwi eu tybiau blodau yn y tri phentref eleni.
39.4.2 HYSBYSFWRDD GWYTHERIN – mae angen ei drwsio i rwystro dŵr rhag mynd i mewn iddo ac awgrymwyd ei symud o ben y wal a'i osod ar y llawr tu ôl i'r sedd newydd. PENDERFYNWYD yn unfrydol gofyn i Kevin Roberts wneud hyn.
39.4.3 CWT YR HERS, MYNWENT GWYTHERIN – bu Emlyn Williams i olwg y to a deall bod angen gwneud ychydig o waith yno. PENDERFYNWYD yn unfrydol gofyn i Kevin Roberts wneud y gwaith.
39.4.4 TWRCH MYNWENT LLANGERNYW – nid oedd y broblem wedi ei datrys ond roedd ar y gweill.
39.4.5 LLWYBRAU CYHOEDDUS – derbyniwyd ebost gan Dr Jack Siviour yn nodi ei fwriadau i arwain teithiau yn yr ardal. PENDERFYNWYD yn unfrydol ei wahodd at y Pwyllgor Llwybrau i drafod y posibiliadau. Mae arian ar gael ar gyfer llwybrau yn ôl Cyngor Conwy.
39.4.6 SCIP CYMUNEDOL – yn anffodus oherwydd camddealltwriaeth ni chafwyd scip yn Llangernyw ar Fai 12fed.
39.4.7 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – adroddodd y Clerc bod Mr Osborne wedi gadael neges ffôn i ddweud bod problemau ynglŷn a'r morgais a bod y gwaith heb ddechrau. PENDERFYNWYD yn unfrydol i wahodd Mr Osborne i'r cyfarfod nesaf neu os na ddaw ateb bod angen cysylltu â'r aelodau seneddol a cynulliad.

39.5 DATGANIAD ARIANNOL A DATGANIAD LLYWODRAETHU- Cyflwynwyd y datganiadau i'r Cyngor ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd. PENDERFYNWYD yn unfrydol rhoi rhodd o £30 i Gwenda Cooper am archwilio'r cyfrifon.

39.6 CRONFA BRO CERNYW – PENDERFYNWYD yn unfrydol i roi hyn ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

39.7 ADRODDIAD Y CADEIRYDD – cyfeiriodd Elen Edwards at faterion y bu'r Cyngor yn ymwneud â hwy yn ystod y flwyddyn – delio â dros 20 o geisiadau cynllunio, Grant Adnewyddu Pentrefi, gor-yrru ym Mhandy Tudur a Llangernyw, adnewyddu toiledau, safle wê , rheolau sefydlog, polisi iaith, polisi cyfle cyfartal ac ymateb i bapur gwyn Diwygio Llywodraeth Leol. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i drafod posibilrwydd o droi Tyn y Caeau yn gartref i blant a daeth dros 50 i'r cyfarfod yn y ganolfan. Diolchodd am y cyfle i fynychu Cynhadledd Flynyddol Un Llais yn Llanelwedd a bu i rai o'r siaradwyr adael effaith arni- Athro Dave Adamson o Ganolfan Reolaeth Adfywio Cymru a'r ffaith bod tlodi yn 7% 30 mlynedd yn ôl ond erbyn hyn mae'n 33% ac mi gymrith o leiaf 30 mlynedd i droi hyn yn ôl. Pwysleisiodd y siaradwr bod angen mwy o gydweithio i gynhyrchu bwyd yng Nghymru. Hefyd roedd Nick Bennett Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn annerch. Teimla'r Cadeirydd yn ffodus ei bod wedi medru cadeirio pob cyfarfod heblaw am un yn ystod y flwyddyn a diolchodd i'r cynghorwyr i gyd, i'r Is Gadeirydd, i'r Cynghorydd Dilwyn Roberts a'r Clerc am eu gwaith.

39.8 ETHOL CADEIRYDD – etholwyd D Gwynfor Davies yn Gadeirydd y Cyngor – cynigwyd gan Tecwyn Evans ac eiliwyd gan Diane Roberts. Daeth Mr Davies i'r gadair a diolchodd am y fraint o gael ei ethol a diolchodd i'r Cyn Gadeirydd am ei gwaith ar hyd y flwyddyn.

39.9 IS-GADEIRYDD – etholwyd Gwydion A Jones yn Is-Gadeirydd.

Gadawodd Gerwyn Davies y cyfarfod.
39.10 IS-BWYLLGORAU'R CYNGOR CYMUNED – PENDERFYNWYD yn unfrydol i aelodaeth yr Is-bwyllgorau aros yr un fath eleni.

39.11 CYNRYCHIOLWYR AR BWYLLGORAU'R GYMUNED – PENDERFYNWYD yn unfrydol i'r aelodau aros ymlaen ar y pwyllgorau: Amgueddfa – D Gwynfor Davies (Cadeirydd); Canolfan Bro Cernyw – Ian W Griffith a Gerwyn Davies; Pwyllgor Ardal Un Llais – Tecwyn Evans a Diane Roberts; Fforwm Cynghorau Cymuned a Thref Conwy – y Cadeirydd neu Elen Edwards neu aelod arall.
39.12 FFYRDD – cafwyd trafodaeth ynglŷn a chael arwydd rhyngweithiol a'r Clerc i gysylltu â'r heddlu ar y mater eto.

39.13 GWASANAETH BWS LLANGERNYW A GWYTHERIN – cafwyd gwybod bod amseroedd bws Llangernyw wedi newid i ddwy waith y dydd (ddwy ffordd) ond bod cwynion wedi eu derbyn nad oeddynt mor gyfleus i gyrraedd at glinig a.y.b. PENDERFYNWYD yn unfrydol i anfon y gwyn hon ymlaen ac i ofyn pam bod 'tocynnau dydd' i'w cael ar fwsiau'r glannau ond ni allant gael eu defnyddio yng nghefn gwlad. Mae gwasanaeth i Wytherin wedi ei docio i unwaith y dydd ar ddydd Llun (dim gwyliau banc) a Mercher.
Daeth Gerwyn Davies yn ôl i'r cyfarfod.

39.14 CEISIADAU CYNLLUNIO
39.14.1 Cais Rhif 0/41706 Amrywio amod rhif 10 y caniatad cynllunio a roddwyd o dan gôd rhif 0/40607 (codi 2 dyrbin gwynt (gyda gallu cynhyrchu o hyd at 500kw yr un a mwyafswm uchder

blaen llafn o 50.0 metr) ynghyd a datblygiad ategol sef offer switsio trydan cysylltiedig a chiosg newidydd, trac mynediad ar y safle, mynediad i'r brifffordd gyhoeddus a llain galed ar gyfer craen) er mwyn ymestyn y cyfnod ar gyfer cael gwared â'r tyrbinau o 20 mlynedd i 25 mlynedd o ddyddiad y caniatad ar dir ym Mhen y Bryn, Llangernyw gan Mr John Dilwyn Roberts. Gwnaed y sylw nad oeddem fel Cyngor wedi gweld yr Apel a aeth i'r Arolygiaeth Gynllunio. Roedd y Cyngor wedi gwrthwynebu a Chyngor Conwy wedi gwrthwynebu'r cais gwreiddiol. Cynigiodd Ian W Griffith ac eiliodd Elen Edwards a PHLEIDLEISIODD pawb i wrthwynebu'r cais hwn.

39.14.2 Cais am orchymyn cydsyniad datblygu ar gyfer gorchymyn cysylltu ffermydd gwynt Gogledd Cymru (gosod llinell drydan uwchben tua 17 cilomedr o hyd a 132,000 o foltiau o is-orsaf yng Nghoedwig Clocaenog i derfynfa Glascoed ger Llanelwy Cyf EN020014. PENDERFYNWYD yn unfrydol i ysgrifennu i wrthwynebu'r cais ac i'r Clerc holi'r Cynghorydd Sue Lloyd Williams beth oedd safbwynt cynghorau cymuned oedd yn cael eu heffeithio ac y byddem yn eu cefnogi.

39.15 TOILEDAU LLANGERNYW – dangosodd y Clerc ac Ann Vaughan y lliwiau a'r defnyddiau roeddynt wedi eu dewis ar gyfer y waliau a'r llawr. Gobeithir y bydd panel solar ar y to a bydd yn 'adeilad amgylcheddol'. PENDERFYNWD yn unfrydol ein bod yn dymuno cael aelod o'r Cyngor ar y panel fydd yn dyfarnu'r tender. Dewisiwyd Tecwyn Evans neu Elen Edwards neu'r Cadeirydd.

39.16 BWRSARI ER COF AM IAN MACKESON-SANDBACH – cafwyd trafodaeth ar y cynnig a gafwyd yn y cyfarfod diwethaf a gofynnwyd y cwestiwn ydy'r bobl sy'n dyfarnu i fod yn bobl sy'n penderfyn; beth yn union oedd canllawiau bwrsari. PENDERFYNWYD yn unfrydol i'r Clerc holi mwy beth yw'r gwahanaeth rhwng bwrsari ac ysgoloriaeth ac i holi beth yw'r canllawiau ac i beidio cysylltu â'r teulu ar hyn o bryd.

39.17 YSWIRIANT- PENDERFYNWYD yn unfrydol i yswirio gyda AON am gost o £375.13
39.18 HOLIADUR FFORWM CYNGHORAU CYMUNED A THREF CONWY – PENDERFYNWYD i edrych arno yn y cyfarfod nesaf.

39.19 MATERION LLEOL
39.19.1 Dŵr yn llifo dros y ffordd ar ôl pasio Ddol Bach am Lanrwst A548.
39.19.2 Lampiau newydd yn cael eu gosod yn Llangernyw.
39.19.3 Y rhyngrwyd yn araf yn yr ardal.
39.19.4 Brigau coed yn cael eu gadael gan y Cyngor Sirol yn y gilfan ger Llynnau Budron – angen iddynt eu llosgi neu bydd yn annog pobl eraill i adael pethau yno.
39.19.5 Radio Cymru yn wan iawn rhwng Llangernyw a Llanrwst.
39.19.6 Cyfarfod Cylchlythyr – Mai 26ain

39.20 BILIAU

| | |
|---|---|
| D. Evans (Toriad Cyntaf ac Ail Mynwentydd) | £740.00 |
| Canolfan Bro Cernyw (Hurio) | £10.00 |
| Cyfieithu Cymunedol (Cyfarfod) | £72.25 |
| Yswiriant AON | £375.13 |
| G Cooper (Archwilydd mewnol) | £30.00 |

Daeth y Cyfarfod i ben am 9.25 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion………………………………………… Dyddiad………………*

*Annual General Meeting of the Community Council was held on Wednesday, 20 May 2015 at 7.30 pm at Canolfan Bro Cernyw*

*Apologies: Gwyn Williams, Ifor Edwards, Cllr DO Roberts*
*Present: Elen H. Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, Gwynfor Davies, Emlyn Williams, Gwydion Jones, Gerwyn Davies, Ian W Griffith & Clerk.*

*39.1 DECLARATION - gave members the opportunity to declare a connection with an item on the agenda. Gwydion Jones arrived a few minutes after the meeting started but had no contact with an item on the Agenda.*

*39.2 SYMPATHY - the Chairman expressed sympathy with the Council Clerk and family following the loss of her mother-in-law.*

*39.3 Minutes - minutes of 22 April 2015 were read. Diane Roberts had stated that she had asked her name be entered each time they vote and noted that a typographical error in number 38.9 is supposed to read 'shed'. After this was changed Emlyn Williams proposed, Ann Vaughan seconded and voted unanimously that the records are correct.*

*39.4 MATTERS ARISING*
*39.4.1 FLOWERS - The Garden Club members are planting tubs and filling an application form Bro Cernyw Fund. After discussion it was unanimously decided not to fill the flower baskets in the villages this year. There was an email from Conwy County Council's Environment Department saying that they will fill their flower tubs in the three villages this year.*
*39.4.2 GWYTHERIN NOTICEBOARD- need of repair to prevent water from ruining it and suggested its removal from the top of the wall and put on the floor behind the new seat. RESOLVED unanimously ask Kevin Roberts to do this.*
*39.4.3 HEARSE SHED, GWYTHERIN CEMETERY - Emlyn Williams went to view and there is need to do some work there. RESOLVED unanimously to ask Kevin Roberts do the job.*
*39.4.4 A MOLE, LLANGERNYW CEMETERY - the problem had not been solved but in the pipeline.*
*39.4.5 PUBLIC PATH - received an email from Dr. Jack Siviour stating his intentions to conduct tours in the area. RESOLVED unanimously that Dr Siviour be invited to the Pathways Committee to discuss the possibilities. Funding is available for footpaths from Conwy Council.*
*39.4.6 COMMUNITY SKIP- unfortunately due to misunderstanding there was no skip on May 12th in Llangernyw.*
*39.4.7 PEN Y FRON, GWYTHERIN MAST - The Clerk reported that Mr Osborne had left a telephone message to say that there are problems regarding the mortgage and the work have not yet begun. RESOLVED unanimously to invite Mr Osborne to the next meeting or if there is no answer then need to contact the members of parliament and assembly.*

*39.5 FINANCIAL STATEMENT AND GOVERNENCE STATEMENT - statements were presented to the Council and signed by the Chairman. RESOLVED unanimously give a donation of £ 30 to Gwenda Cooper for auditing the accounts.*

*39.6 BRO CERNYW FUND - RESOLVED unanimously to put this on the next Agenda.*

*39.7 CHAIRMAN'S REPORT - Elen Edwards referred to issues that the Council has been involved with during the year - dealing with more than 20 planning applications, Village Renewal Grant,*

*speeding at Pandy Tudur and Llangernyw, renovation of toilets, website , standing orders, language policy, equal opportunities policy and respond to the Local Government Reform white paper. Held a public meeting to discuss the possibility of turning Tyn y Caeau into a children's home. Over 50 people came to the meeting at the Centre. She expressed thanks for the opportunity to attend Annual Conference One Voice Wales in Llanelwedd and some of the speakers Professor Dave Adamson from Management Regeneration WalesCentre left and impact - and the fact that poverty was 7% 30 years ago but now it is 33% and it will take at least 30 years to turn this back. The speaker stressed the need for greater collaboration to produce food in Wales. Nick Bennet Public Service Ombudsman for Wales addressed the Conference. Chairman feels fortunate that she has been able to chair all meetings except one during the year and thanked all the councillors, the Vice Chairman, Councillor Dilwyn Roberts and Clerk for their work.*

*39.8 ELECTION OF CHAIR - D Gwynfor Davies was elected as Chairman of the Council - proposed by Tecwyn Evans and seconded by Diane Roberts. Mr Davies came to the chair and thanked for the honour of being elected and thanked the Past Chairman for her work throughout the year.*

*39.9 VICE CHAIR - Gwydion A Jones was elected Vice Chairman.*

*Gerwyn Davies left the meeting.*
*39.10 SUB COMMITTEES COMMUNITY COUNCIL - RESOLVED unanimously for membership of the Sub-committees remain the same this year.*

*39.11 REPRESENTATIVES ON COMMITTEES IN THE COMMUNITY - RESOLVED unanimously that members stay on the committees: Museum - D Gwynfor Davies (Chair); Canolfan Bro Cernyw - Ian W Griffith and Gerwyn Davies; Area Committee One Voice - Tecwyn Evans and Diane Roberts; Community and Town Council Forum Conwy - the Chairman or Elen Edwards or another member.*
*39.12 ROADS - there was discussion regarding the acquisition of a interactive sign and the Clerk to contact the police on the matter again.*

*39.13 BUS SERVICE LLANGERNYW A GWYTHERIN - Llangernyw were told that bus times have changed to a bus twice daily (both ways) but that complaints have been received that they were not so convenient to get to a clinic etc. RESOLVED unanimously to send this complaint forward and ask why 'Day tickets' can be purchased on buses on the coast but not in the countryside. A service to Gwytherin is docked to once a day on Mondays (not bank holidays) and Wednesdays.*
*Gerwyn Davies came back to the meeting.*

*39.14 PLANNING APPLICATIONS*
*39.14.1 Application No. 0/41706 Variation of condition 10 of planning permission granted under code number 0/40607 (erect 2 wind turbines (with a production capacity of up to 500kW and a maximum tip height of a blade of 50.0 meters) along ancillary development which switchgear and related electrical transformer kiosk, track on-site access, access to the public highway and hard shoulder for crane) in order to extend the period for removing the turbines from 20 years to 25 years date of the permission on land at Pen y Bryn, Llangernyw by Mr John Dilwyn Roberts. The comment was made that we as a Council had not seen the Appeal that went to the Planning Inspectorate. The Council had opposed and Conwy Council had objected to the original application. Ian W Griffith proposed and seconded by Elen Edwards and everyone voted to oppose this application.*

*39.14.2 Application for an order for development consent order connecting North Wales wind farms (installed overhead power line approximately 17 kilometers long and 132,000 volts of a substation in Clocaenog Forest to Glascoed terminal near St Asaph Ltd EN020014.*
*RESOLVED unanimously to oppose the application and the Clerk to contact Councillor Sue Lloyd Williams questioning the perspective of community councils which were being affected and we would support them.*

*39.15 LLANGERNYW TOILETS - Ann Vaughan and the Clerk showed the colours and materials they had selected for the walls and floor. Hoped that a solar panel would be fitted on the roof and it will be an 'environmental building". Decided unanimously that we would like a member of the Council on the panel that award the tender. Tecwyn Evans was chosen or Elen Edwards or the Chairman.*

*39.16 BURSARY IN MEMORY FOR IAN MACKESON-SANDBACH - there was a discussion on the proposal received at the last meeting and the question was asked whether the people who give the awarded should be the people who determine; what exactly were bursary guidelines.*
*RESOLVED unanimously to ask for more advice re a bursary and what was the difference between bursaries and scholarships and to inquire what are the guidelines and not to contact the family at this stage.*

*39.17 INSURANCE - RESOLVED unanimously to insure with AON at a cost of £ 375.13*
*39.18 CONWY COMMUNITY AND TOWN COUNCILS FORUM QUESTIONNAIRE -*
*RESOLVED to look at it at the next meeting.*

*39.19 LOCAL ISSUES*
*39.19.1 Water flowing over the road after passing Ddol Bach towards Llanrwst A548.*
*39.19.2 New lamps are being installed in Llangernyw.*
*39.19.3 The internet is slow in the area.*
*39.19.4 Twigs of trees are left by the County Council in the layby near Llynnau Budron - they need to be burned or it will encourage others to leave stuff there.*
*39.19.5 Radio Cymru is very weak between Llangernyw and Llanrwst.*
*39.19.6 Newsletter Meeting - May 26th*

*39.20 BILLS*
*D. Evans (First and Second Cuts to Cemeteries) £ 740.00*
*Canolfan Bro Cernyw (Hire) £ 10.00*
*Community Translation (meeting) £ 72.25*
*AON Insurance £ 375.13*
*G Cooper (Internal Auditor) £ 30.00*
*The meeting ended at 9.25 pm.*

*Approved the Minutes D G Davies ................................ Date ………24/6/15…………*